

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 26 Chwefror 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.30 0300 200 6362
SeneddMCD@cynulliad.cymru

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

(Tudalennau 1 – 3)

CLA(5)–07–18 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir
Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

2.1 SL(5)185 – Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu)
(Cymru) (Diwygio) 2018

2.2 SL(5)186 – Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru)
(Diwygio) 2018

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

2.3 SL(5)183 – Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2018

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol



3.1 SL(5)184 – Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2018

(Tudalennau 4 – 18)

CLA(5)–07–18 – Papur 2 – Rheoliadau

CLA(5)–07–18 – Papur 3 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–07–18 – Papur 4 – Adroddiad

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.7

4.1 SL(5)187 – Cod Ymarfer ar Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (Taliadau Uniongyrchol a Dewis o Lety) a Rhan 5 (Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

(Tudalennau 19 – 20)

[Cod Ymarfer ar Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 \(Taliadau Uniongyrchol a Dewis o Lety\) a Rhan 5 \(Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol\) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

[Cod Ymarfer ar Arfer Swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 \(Taliadau Uniongyrchol a Dewis o Lety\) a Rhan 5 \(Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol\) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 – Memorandwm Esboniadol](#)

CLA(5)–07–18 – Papur 5 – Adroddiad

4.2 SL(5)188 – Cod ymarfer a chanllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

(Tudalennau 21 – 23)

[Cod ymarfer a chanllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas â Rhan 6 \(plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya\) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#)

[Cod ymarfer a chanllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas â Rhan 6 \(plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya\) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014 - Memorandwm Esboniadol](#)

CLA(5)-07-18 – Papur 6 – Adroddiad

CLA(5)-07-18 – Papur 7 – Nodyn gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant

5 Papurau i'w nodi

5.1 SL(5)170 – Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018

(Tudalennau 24 – 27)

CLA(5)-07-18 – Papur 8 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 9 Chwefror 2018

CLA(5)-07-18 – Papur 9 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 26 Ionawr 2018

5.2 SL(5)150 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

(Tudalennau 28 – 30)

CLA(5)-07-18 – Papur 10 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, 13 Chwefror 2018

CLA(5)-07-18 – Papur 11 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2018

5.3 Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

(Tudalennau 31 – 38)

CLA(5)–07–18 – Papur 12 – Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru: Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

5.4 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio

(Tudalennau 39 – 44)

CLA(5)–07–18 – Papur 13 – Llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio, 21 Chwefror 2018

5.5 Llywodraethiant yn y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd: Llythyr gan y Prif Weinidog

(Tudalen 45)

CLA(5)–07–18 – Papur 14 – Llythyr gan y Prif Weinidog, 19 Chwefror 2018

5.6 Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael): Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

(Tudalennau 46 – 57)

CLA(5)–07–18 – Papur 15 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

7 Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru): Adroddiad drafft

(Tudalennau 58 – 81)

CLA(5)–07–18 – Papur 16 – Adroddiad drafft

8 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Adroddiad drafft

(Tudalennau 82 – 122)

CLA(5)-07-18 - Papur 17 - Adroddiad Drafft

CLA(5)-07-18 - Papur 18 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 15 Ionawr 2018

CLA(5)-07-18 - Papur 19 - Llythyr gan Simon Thomas AC, 30 Ionawr 2018

CLA(5)-07-18 - Papur 20 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, 8 Chwefror 2018

Dyddiad y cyfarfod nesaf

5 Mawrth 2018

26 Chwefror 2018

SL(5)185 –

Gweithdrefn: Negyddol

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 2017 (“Rheoliadau 2017”) (O.S. 2017/113 (Cy. 39)) yn darparu ar gyfer cynnwys hysbysiadau galw am dalu ardrethi annomestig sy'n cael eu gwasanaethu gan neu ar ran awdurdodau bilio yng Nghymru. Mae Atodlen 2 i Reoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth sy'n rhaid ei chynnwys yn y nodiadau esboniadol sy'n rhaid cyd-fynd â'r hysbysiad galw am dalu, sy'n cynnwys gwybodaeth am y cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach sy'n gymwys yng Nghymru.

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2017 (“Gorchymyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach 2017”) (O.S. 2017/1229 (Cy. 293)) yn cyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach newydd yng Nghymru o 1 Ebrill 2018. Mae'r Rheoliadau yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2017 fel bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r hysbysiadau galw am dalu a roddwyd mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2018, yn cyfeirio at Orchymyn Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach 2017.

Deddf Wreiddiol: Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

Fe'u gwnaed ar: 31 Ionawr 2018

Fe'u gosodwyd ar: 2 Chwefror 2018

Dyddiad dod i rym: 23 Chwefror 2018

SL(5)X186 – Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2018

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (“Rheoliadau 2015”).



Mae Rhan 3 o Reoliadau 2015 yn cynnwys darpariaethau cyffredinol ynghylch lleoli plant sy'n derbyn gofal, gyda rheoliad 12 yn gwneud darpariaeth benodol mewn perthynas â lleoliadau y tu allan i'r ardal.

Mae Rheoliad 2 y Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y wybodaeth y mae'n rhaid i'r awdurdod cyfrifol eu hysbysu i'r awdurdod lleol y tu allan i'r ardal neu'r awdurdod lleol yn Lloegr y mae'r plentyn wedi'i leoli o dan reoliad 12(8) Rheoliadau 2015, ac sy'n rhaid ei ddarparu o fewn 24 awr ar ôl gwneud y lleoliad.

Deddf Wreiddiol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar: 29 Ionawr 2018

Fe'u gosodwyd ar: 2 Chwefror 2018

Dyddiad dod i rym: 2 Ebrill 2018

SL(5)183 – Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2018

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015 (“Rheoliadau Llety Diogel”).

Pwrpas y diwygiad i'r diffiniad “llety diogel” yn rheoliad 2 y Rheoliadau Llety Diogel i gynnwys llety diogel yn yr Alban yw fel bod lleoli plentyn gan awdurdod lleol yng Nghymru mewn llety diogel yn yr Alban yn ddarostyngedig i'r un mesurau diogelwch sy'n gymwys i leoliadau yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r diwygiad i baragraff (5) o reoliad 1 o ganlyniad i ddod â Rhan 1 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”) i rym. Caiff gwasanaethau llety diogel yng Nghymru eu rheoleiddio o dan Ddeddf 2016 o 2 Ebrill 2018.

Mae'r diwygiad i reoliad 4 yn ei gwneud yn glir pwy sy'n gallu gwneud cais am orchymyn llety diogel mewn achosion nad ydynt yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal fel y darparwyd ar eu cyfer o dan reoliad 16.



Mae'r diwygiadau i reoliadau 6 a 7 yn egluro bod y cyfnodau hiraf a bennir yn y ddau reoliad hynny yn berthnasol i orchymyn llys a wneir mewn perthynas â llety diogel yng Nghymru.

Mae'r diwygiad i reoliad 8 o ganlyniad i ddiwygio diffiniad "llety diogel" yn rheoliad 1 ac yn egluro bod y cyfyngiad yn gymwys mewn perthynas â lleoli plant sy'n derbyn gofal.

Gwneir rheoliadau 9 a 12 o dan y pŵer a roddwyd gan adran 27 o Ddeddf 2016.

Mae'r diwygiad i reoliad 15 yn egluro sut mae'r ddarpariaeth yn gweithio ar gyfer lleoliadau gan awdurdodau lleol yn Lloegr i lety diogel yng Nghymru.

Deddfau gwreiddiol: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Fe'u gwnaed ar: Heb ei nodi

Fe'u gosodwyd ar: Heb ei nodi

Dyddiad dod i rym: 2 Ebrill 2018



Eitem 3.1

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 123 (Cy. 29)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2018

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 (“Rheoliadau 2015”).

Mae Rheoliadau 2015 yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir ganddynt, neu y cynigiant eu darparu neu eu trefnu, wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“y Ddeddf”). Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn cynnwys darpariaeth gyfochrog sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys pan fo awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Rheoliadau 2015 (codi ffioedd o dan Ran 5 o'r Ddeddf) fel a ganlyn:

- cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £70 i £80,
- cynnydd yn y terfyn cyfalaf perthnasol am ofal preswyl o £30,000 i £40,000,
- cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal o £27.50 i £28.50.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 4 o Rheoliadau 2015 (cyfraniadau ac ad-daliadau am daliadau uniongyrchol) fel a ganlyn:

- cynnydd yn yr uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £70 i £80,
- cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol ar gyfer person y darperir llety iddo mewn

cartref gofal ac sy'n cael taliadau uniongyrchol o dan y Ddeddf o £27.50 i £28.50.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 123 (Cy. 29)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gofal a Chymorth
(Gosod Ffioedd) (Cymru)
(Diwygio) 2018**

Gwnaed 30 Ionawr 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 2 Chwefror 2018

Yn dod i rym 9 Ebrill 2018

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 50, 52, 53(3), 61, 66 a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Ebrill 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

2. Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015(2) wedi eu diwygio fel a ganlyn—

- (a) yn rheoliad 7 (uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl), ym mharagraff (1), yn lle “£70” rhodder “£80”;
- (b) yn rheoliad 11 (terfyn cyfalaf perthnasol), ym mharagraff (2)(a), yn lle “£30,000” rhodder “£40,000”;

(1) 2014 dccc 4.

(2) O.S. 2015/1843 (Cy. 271), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2017/214 (Cy. 58).

- (c) yn rheoliad 13 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) yn lle “£27.50” rhodder “£28.50”;
- (d) yn rheoliad 22 (uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl), ym mharagraff (1), yn lle “£70” rhodder “£80”; ac
- (e) yn rheoliad 28 (isafswm incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) yn lle “£27.50” rhodder “£28.50”.

Huw Irranca-Davies

Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, o dan
awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru
30 Ionawr 2018

Explanatory Memorandum to the Care and Support (Charging) (Wales) (Amendment) Regulations 2018

This Explanatory Memorandum has been prepared by the Health and Social Services Group and is laid before the National Assembly for Wales in conjunction with the above subordinate legislation and in accordance with Standing Order 27.1

Minister's Declaration

In my view, this Explanatory Memorandum gives a fair and reasonable view of the expected impact of the Care and Support (Charging) (Wales) (Amendment) Regulations 2018 in relation to charging under Parts 4 and 5 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. I am satisfied that the benefits justify the likely costs.

Huw Irranca-Davies AM
Minister for Children and Social Care
2 February 2018

Part 1 – OVERVIEW

1. Description

The Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (the “Act”) brings together local authorities’ duties and functions in relation to improving the well-being of people who need care and support, and carers who need support. The Act provides the foundation, along with regulations and codes of practice made under it, to a statutory framework for the delivery of social care in Wales to support people of all ages as part of their families and communities.

Under the Act local authorities have discretion to charge for the care and support they provide or arrange for a person, or the support they provide or arrange for a carer. They also have discretion to set a contribution or reimbursement for direct payments they provide to a person to enable them to arrange their care and support themselves. This applies to care and support in a person’s own home, within the community, or in residential care. Where an authority wishes to apply this discretion to set a charge, contribution or reimbursement, regulations made under the Act govern the arrangements applicable to this.

The Care and Support (Charging) (Wales) Regulations 2015 (“the principal Regulations”) govern local authorities in discharging their discretion to set a charge, contribution or reimbursement under Part 4 (meeting needs) and Part 5 (charging and financial assessment) of the Act. These came into force on 6 April 2016.

Since then a number of policy changes have been agreed which required amendments to the principal Regulations. A set of amending regulations to effect these, the Care and Support (Choice of Accommodation, Charging and Financial Assessment) (Amendment) (Wales) Regulations 2017 came into force on 10 April 2017.

The regulations subject to this Explanatory Memorandum are required to introduce further updates to the principal Regulations to reflect uplifted sums of money that apply to specific areas of charging for social care and support.

2. Matters of special interest to the Constitutional and Legislative Affairs Committee

There are no specific matters of special interest

3. Legislative background

The powers enabling the making of regulations in relation to setting a contribution or reimbursement for direct payments, and the financial assessment to determine these, are contained in Part 4 (sections 50, 52 and 53(3)) of the Act. Powers enabling charging for care and support, and support to a carer, are contained in Part 5 (sections 61, 62, 66, 67 and 69) of the Act.

These amending regulations are subject to the negative procedure. They will come into force on 9 April 2018.

4. Purpose & intended effect of the legislation

The overall purpose of the amending regulations is to effect a number of changes to the principal Regulations as result of certain policy decisions. These Regulations govern local authorities' determination of a charge for providing or arranging care and support, or support to a carer, where they use their discretion to charge. They also govern authorities' determination of a contribution or reimbursement for a person receiving direct payments to secure their own care and support, or a carer securing their own support, where authorities use their discretion to set these.

Regulation 2(a) to (e) of the amending regulations amend the principal Regulations as follows:

- uplift from £70 to £80 the maximum weekly charge applicable to non-residential care and support, and the maximum weekly contribution or reimbursement for receiving direct payments to secure this, by amending regulations 7(1) and 22(1) of the principal Regulations. This provision ensures that, where a local authority applies its discretion to charge a person for the non-residential care and support they receive, or the non-residential support a carer receives, there is a consistent maximum amount the local authority can charge. Equally, where a local authority applies its discretion to set a contribution or reimbursement for the receipt of direct payments to secure non-residential care and support, there is a consistent maximum amount the local authority can make for these;
- uplift from £30,000 to £40,000 the capital limit as it applies to charging for residential care by amending regulation 11 of the principal Regulations. This is to implement the second stage in delivering a key commitment in the Welsh Government's 'Taking Wales Forward' programme to put in place a £50,000 capital limit in charging for residential care by the end of its current term;
- uplift from £27.50 a week to £28.50 a week the level of the minimum income amount applied in charging for residential care, or in setting a contribution or reimbursement for direct payments to secure residential care, by amending regulations 13 and 28 of the principal Regulations. The minimum income amount is the sum of money a person in residential care, and who is supported financially by their local authority, is able to retain from their weekly income to spend on personal items as they choose. The sum is reviewed annually in the light of the weekly uplifts applied to UK state pension and welfare benefits.

5. Consultation

A five week consultation on the principle of the changes being made by the amending regulations ran between 21 December 2016 and 25 January 2017. In total 24 responses were received from a range of stakeholders covering individuals, representative groups, local authorities and professional organisations. Overall respondents were supportive of the policy behind these changes, seeing them as rebalancing the impact of charging upon those who are required to pay for their care and support. They did, however, raise a number of questions, such as the short period of the consultation held then, the level of the eventual increase planned for the maximum weekly charge and how the changes would be communicated to care recipients. These are being addressed in the implementation of the amendments.

A summary report of the consultation responses is available on the Welsh Government website at <https://consultations.gov.wales/consultations/charging-social-care>.

PART 2 – REGULATORY IMPACT ASSESSMENT

Introduction

The three changes being introduced by the amending regulations are considered in this Regulatory Impact Assessment. Introducing these changes will ensure the principal Regulations operate in accordance with the policy intention.

Options and Benefits

This Regulatory Impact Assessment considers two options in relation to the three changes identified above:

- Option 1 – “do nothing” and not make the amending regulations;
- Option 2 – “make the amending regulations” to introduce a number of changes to the principal Regulations relating to charging for care and support under the Act.

Maximum Weekly Charge

Under the Care and Support (Charging) (Wales) Regulations 2015 a person assessed as in need of care and support in their own home, or within the community, can be charged by their local authority where the authority provides or arranges this. Those receiving direct payments to secure such care and support for themselves can also have a contribution or reimbursement set by their local authority for receipt of these. Where authorities apply a charge, a contribution or a reimbursement in these circumstances, the principal Regulations limit these to a maximum amount. This is currently set at £70 per week. This provision was introduced in 2011 to address the wide variation which existed then in the charges, contributions and reimbursements authorities applied for non-residential care and support of a similar nature.

Ministers have committed to increase the maximum charge to £100 per week by the end of this Assembly. In order to achieve this at a steady pace, and in view of the increases to be received by care and support recipients through uplifted UK state pensions and welfare benefits, Ministers propose to uplift the level of the maximum by £10 a week to £80 a week from 9 April 2018. The additional income this will secure for local authorities will help meet increasing costs pressures associated with maintaining the level and quality of the care and support they provide or arrangement.

Option 1 – do nothing

This option retains the maximum charge at its current level and halts progression towards Ministers’ intentions to apply a £100 a week maximum charge by the end of the term of this Assembly. In addition, local authorities would have no ability to apply a higher charge, contribution or reimbursement for non-residential care and support or for direct payments, where a person had the financial means to pay a higher amount.

- Costs

There would be no new cost implication for local government from this option. It would, however, limit local authorities’ ability to collect increased income from charging for care and support to meet the increased costs of maintaining the level and quality of this. This

is at a time when recipients' income would have increased due to uplifts in state pension and welfare benefits.

- Benefits

This option benefits care and support recipients who, despite their higher level of personal income, would continue to pay no more than £70 a week for the non-residential care and support they receive. It does, however, increase the financial pressures for local authorities in terms of being able to afford to maintain the level and quality of care provided.

Option 2 – make the amending regulations

This option would increase the level of the maximum charge by £10, from £70 per week to £80 per week. This would take account of increases applied from April 2018 to state pensions and welfare benefits and help fund increasing costs local authorities face in maintaining the level and quality of care provided.

- Costs

Under this option there would be an additional cost to some care recipients who currently pay the maximum. This option could generate up to an estimated £4.3 million per annum for local authorities in increased income from charging for care and support through the higher maximum. This increased income would only come from care recipients whose care and support costs over the current maximum of £70 per week and who have been financially assessed as being able to afford a charge above this up to the higher maximum. Those not in this position would see no change in their charge, contribution or reimbursement as a direct result of this change.

- Benefits

Based on data from local authorities on the number who currently pay the maximum, this option could raise up to £4.3 million per annum in increased income to help address the financial pressure in maintaining the level and quality of care provided. The financial protections in place under the principal Regulations ensure a person is not required to pay an amount that is unaffordable to them in meeting their daily living costs. The increase in the maximum under this option would not impact on these financial protections so that only those financially assessed as being able to afford the higher maximum would pay this.

Minimum Income Amount (MIA)

Where a person is in residential care, and is in receipt of financial support from their local authority towards the cost of their care, they are required to contribute towards this cost from the majority of their weekly income. However, under the Care and Support (Charging) (Wales) Regulations 2015 a person must be able to retain an amount of their income to spend on personal items as they wish. This is known as the MIA. The level of the MIA is reviewed annually to take account of annual uplifts to UK state pensions and welfare benefit payments, which form the basis of care home residents' weekly income. Taking these uplifts into account, Ministers proposed to increase the MIA from 9 April 2018 from its current level of £27.50 per week to £28.50 a week. This will allow residents to retain a slightly higher amount of their income to spend as they wish on personal items.

Option 1 – do nothing

This option maintains the level of the MIA at £27.50 per week. As a result all of the increase in a resident's weekly income from April 2018 as a result of uplifted state pension and welfare benefit payments would go to their local authority to pay for their care.

- Costs

There are no new cost implications for local government from this option. Instead authorities would receive up to an estimated £3 million per annum in increased resident contributions. This would be due to the increased income residents would have resulting from the uplifts in state pensions and welfare benefits. Residents in this position would not retain any of the uplifts made.

- Benefits

Care home residents supported by their local authority would be unable to retain any of the increase applied to their state pensions and benefits. Instead these funds would increase their contributions to local authorities for the cost of their care, so as to increase the income stream authorities receive from supported care home residents.

Option 2 – make the amending regulations

This option would make the amending regulations so as to increase the MIA from its current level of £27.50 per week to £28.50. This would allow local authority supported residents to retain a proportion of the uplifts to their state pensions and welfare benefits which would occur to spend on personal items as they wish.

- Costs

This option results in local authorities receiving a smaller increase in charge income through resident contributions. Instead authorities would receive up to an estimated £2.2 million per annum in increased resident contributions. This would be due to the increased income residents would have resulting from the uplifts in state pensions and welfare benefits. Residents would retain a proportion of these uplifts to spend on personal items as they wish.

- Benefits

This option splits the increased income which local authority supported residents would have from April 2018 as a result of uplifts to their state pension and welfare benefit payments. Residents in this position would be able to retain a £1 a week of these uplifts to spend on personal items as they wish, while authorities would receive the balance in increased contributions from residents towards the cost of their resident care.

Capital Limit

The capital limit used in relation to charging for residential care, determines whether a resident pays the full cost of their care and accommodation or whether their local authority is required to provide financial support towards this cost. Under the Care and Support (Charging) (Wales) Regulations 2015 the capital limit is set at £30,000. This current level applied the first stage of implementation of a key 'Taking Wales Forward' commitment to uplift the capital limit applicable in charging for residential care to £50,000 within the term of this Assembly. This is to enable residents to retain more of

their savings and other capital without this having to be used to pay for their care and accommodation.

Ministers plan to increase the capital limit in relation to charging for residential care from its currently level of £30,000 to £40,000 as the second stage of implementation of the commitment to have a capital limit of £50,000 in future years.

Option 1 – do nothing

This option involves the amending regulations not being made so that the capital limit applicable in charging for residential care remains at its current level of £30,000. This would also halt progress in delivering on a key Government commitment.

- **Costs**

There would be no new cost implications for local government from this option, neither would there be any change in the charging arrangements by which residents pay for their residential care and accommodation.

- **Benefits**

This option provides no new benefits to people in care homes. Individuals would be unable to retain any additional amount of their capital than at present.

Option 2 – make the amending regulations

This option would make the amending regulations so that the capital limit applicable in charging for residential care increase from £30,000 to £40,000 from 9 April 2018. People in residential care would from this date be eligible for local authority support towards the cost of their residential care earlier than at present.

- **Cost**

Based on independent research commissioned by the Welsh Government, it is estimated that this increase would cost local authorities an additional £7 million per annum from 2018-19. This would be to fund at an earlier point the residential placement of those affected by it. Consequently, an additional £7 million has been included in the Revenue Support Grant for local authorities for 2018-19 to support implementation.

- **Benefits**

This option enables people requiring residential care to retain a higher level of their capital to spend as they wish and is the second step in delivering the Welsh Government's commitment to increase the capital limit in charging for residential care to £50,000. Residents affected by this change would be able to retain up to an additional £10,000 of their capital without this having to be used to pay for their care.

Conclusion

Due to the financial benefit for local authorities in increasing the maximum weekly charge, the financial benefit for care home residents in increasing the minimum income amount and the capital limit, "Option 2 – make the amending regulations" is recommended in each case. A summary table showing the annual financial impact of the amending regulations is below:

	Welsh Government £m	Local Authorities £m	Care Recipients £m
Maximum Weekly Charge	0	4.3	(-4.3)
Minimum Income Amount	0	2.2	0.8
Capital Limit	(-7.0)	0	7.0
Total	(-7.0)	6.5	3.5

Consultation

A five week public consultation on the principle of the changes planned was held between 21 December 2016 and 25 January 2017. The documents can be found at: <https://consultations.gov.wales/consultations/charging-social-care>

Competition Assessment

Competition Filter Test	
Question	Answer: yes/no
Q1: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 10% market share?	No
Q2: In the market(s) affected by the new regulation, does any firm have more than 20% market share?	No
Q3: In the market(s) affected by the new regulations do the largest three firms together have at least 50% market share?	No
Q4: Would the costs of the regulation affect some firms substantially more than others?	No
Q5: Is the regulation likely to affect the market structure, changing the number or size of businesses/organisations?	No
Q6: Would the regulation lead to higher set-up costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet?	No
Q7: Would the regulation lead to higher ongoing costs for new or potential suppliers that existing suppliers do not have to meet?	No
Q8: Is the sector characterised by rapid technological change?	No
Q9: Would the regulation restrict the ability of suppliers to choose the price, quality, range or location of their products?	No

Post Implementation Review

The Act contains provisions to allow Welsh Ministers to monitor functions of it carried out by local authorities and other bodies. The Welsh Ministers may require these bodies to report on their duties in implementing these amending regulations.

The Welsh Government will continue to monitor the impact of the amending regulations on areas such as the Welsh language, the UN Convention on the Rights of the Child, Older People and Equality.

SL(5)184 - Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2018

Cefndir a Phwmpas

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae Rheoliadau 2015 yn nodi'r gofynion y mae rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn wrth ddyfarnu swm y ffioedd sy'n gymwys mewn perthynas â gofal a chymorth a ddarperir neu a drefnir ganddynt, neu y cynigiant eu darparu neu eu trefnu, wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan Ran 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf"). Mae Rheoliadau 2015 hefyd yn cynnwys darpariaeth gyfochrog sy'n nodi'r gofynion sy'n gymwys pan fo awdurdod lleol yn gwneud taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 2 o Reoliadau 2015 (codi ffioedd o dan Ran 5 o'r Ddeddf) fel a ganlyn:

- cynnydd yn yr uchafswm ffi wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £70 i £80,
- cynnydd yn y terfyn cyfalaf perthnasol am ofal preswyl o £30,000 i £40,000,
- cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal o £27.50 i £28.50.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 4 o Reoliadau 2015 (cyfraniadau ac ad-daliadau am daliadau uniongyrchol) fel a ganlyn:

- cynnydd yn yr uchafswm cyfraniad neu ad-daliad wythnosol am ofal a chymorth amhreswyl o £70 i £80,
- cynnydd yn yr isafswm incwm wythnosol ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal ac sy'n cael taliadau uniongyrchol o dan y Ddeddf o £27.50 i £28.50.

Gweithdrefn

Negyddol.

Craffu Technegol

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Craffu ar rinweddau

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3(ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.



Mae Rheoliad 2(b) yn cynyddu'r terfyn cyfalaf sy'n gymwys i osod ffioedd am ofal preswyl o £30,000 i £40,000. Diben y terfyn cyfalaf yw pennu p'un a fydd unigolyn yn talu am gost lawn ei ofal preswyl ei hun, neu a fydd yn cael cymorth ariannol tuag at y gost hon gan ei awdurdod lleol.

Daw hyn fel rhan o ymrwymiad Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru i gynyddu'r terfyn cyfalaf a ddefnyddir gan awdurdodau lleol sy'n codi tâl am ofal preswyl o £24,000 i £50,000 yn ystod tymor y Cynulliad.

Mae'r cynnydd yn cael ei gyflwyno fesul cam, a dechreuodd y drefn hon ym mis Ebrill 2017 pan gafodd y terfyn mewn perthynas â gofal preswyl ei gynyddu i £30,000.

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

2 Chwefror 2018



SL(5)187 - Cod ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Item 4.1

Cefndir a Phwrpas

Cyhoeddir y cod ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y "Ddeddf").

Mae'r cod hwn, a'r rheoliadau y mae'n cyfeirio atynt, yn nodi'r gofynion ar awdurdodau lleol mewn perthynas â'r canlynol:

- pennu cyfraniad neu ad-daliad mewn cysylltiad â thaliadau uniongyrchol o dan adrannau 50-53 o'r Ddeddf (Taliadau uniongyrchol);
- y dewis o lety i'r rhai mewn cartref gofal, gan gynnwys talu costau ychwanegol o dan amgylchiadau penodol, o dan adran 57 o'r Ddeddf (Achosion pan fo person yn mynegi ei fod yn ffafrio llety penodol)
- codi ffioedd ac asesiadau ariannol o dan adran 59 o'r Ddeddf (Pŵer i osod ffioedd) ar y rhai sy'n cael gofal a chymorth, neu gymorth yn achos gofalwyr;
- gohirio taliadau gan y rhai mewn cartref gofal o dan adran 68 o'r Ddeddf (Cytundebau ar daliadau gohiriedig);
- codi ffi o dan adran 69 o'r Ddeddf (Codi ffi am wasanaethau ataliol a chynhorthwy) am ddarparu neu drefnu gwasanaethau ataliol a chynhorthwy;
- adennill dyledion o dan adran 70 o'r Ddeddf (Adennill costau, llog etc) a throsglwyddo asedau i osgoi ffioedd o dan adran 72 o'r Ddeddf (Trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd);
- adolygiadau o dan adran 73 (Adolygiadau sy'n ymwneud â chodi ffioedd) sy'n ymwneud â dyfarniadau ynghylch codi ffi a wneir o dan y Ddeddf neu ffioedd a godir o dan y Ddeddf.

Mae'r cod hwn yn cwmpasu'r canlynol:

- llunio polisi ynghylch codi ffioedd;
- materion cyffredin mewn perthynas â chodi ffioedd;
- codi ffi am ofal a chymorth mewn cartref gofal;
- dewis o lety wrth drefnu gofal mewn cartref gofal;
- gwneud taliadau am gostau ychwanegol ar gyfer y llety sy'n cael ei ffafrio;
- codi ffi am ofal a chymorth yn y gymuned;
- codi ffi am gymorth i ofalwyr.



Gweithdrefn

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Cynulliad. Os, o fewn 40 diwrnod (heb gynnwys unrhyw amser pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu pan fydd ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) o osod y drafft, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft, ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

Craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawi eglurder y cod ynghylch pethau'n mae'n "rhaid" eu gwneud a phethau y "dylai" eu gwneud, a sut mae cyflwyniad y cod yn egluro o'r cychwyn cyntaf y gwahaniaeth rhwng y defnydd o "rhaid" a "dylai" yn y cod.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

9 Chwefror 2018



SL(5)188 - Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn cynnwys plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal neu sydd wedi gadael gofal.

Item 4.2

Cefndir a Phwrpas

Cyhoeddir y cod ymarfer hwn o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y "Ddeddf").

Amcan y cod hwn yw cyflwyno cyfrifoldebau awdurdodau lleol o dan y Ddeddf ar gyfer:

- cynlluniau gofal a chymorth mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan gynnwys addysg ac iechyd;
- sut y dylid lletya a chynnal plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys lleoliadau plant sy'n derbyn gofal;
- cyswllt ac ymweliadau â phlant sy'n derbyn gofal a phlant a arferaid derbyn gofal, gan gynnwys ymwelwyr annibynnol;
- trefniadau ar gyfer gadael gofal, cynghorwyr personol, cynlluniau ac asesiadau llwybrau, llety addas a chymorth ar gyfer addysg uwch;
- llety diogel;
- plant sy'n cael eu lletya mewn mathau eraill o sefydliadau (gan awdurdodau iechyd ac addysg, neu mewn cartrefi gofal neu ysbytai annibynnol).

Gweithdrefn

Rhaid gosod drafft o'r cod gerbron y Cynulliad. Os, o fewn 40 diwrnod (heb gynnwys unrhyw amser pan fydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ei ddiddymu neu pan fydd ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) o osod y drafft, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft, ni chaniateir i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r cod (neu'r cod diwygiedig) ar ffurf y drafft, a daw'r cod (neu'r cod diwygiedig) i rym ar y dyddiad a bennir drwy orchymyn Gweinidogion Cymru.

Craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Mae'r Pwyllgor yn croesawi eglurder y cod ynghylch pethau'n mae'n "rhaid" eu gwneud a phethau y "dylai" eu gwneud, a sut mae cyflwyniad y cod yn egluro o'r cychwyn cyntaf y gwahaniaeth rhwng y defnydd o "rhaid" a "dylai" yn y cod.



Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan y llywodraeth.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

9 Chwefror 2018



Annwyl Mick

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor a chydabod ei adborth cadarnhaol ar eglurder y geiriad a'r bwriad sydd o fewn y codau ymarfer (diwygiedig) ar Rannau 4 a 5 a Rhan 6, o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) , a osodwyd gerbron y Cynulliad yn ddiweddar.

Wrth ddatblygu, ar y cyd â rhanddeiliaid, y set gychwynnol o godau o dan y Ddeddf, a ddyroddwyd ym mis Rhagfyr 2015, roedd Gweinidogion yn awyddus i amlygu'r agweddau y byddai'n ofynnol i awdurdodau lleol – wrth arfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol – gydymffurfio â hwy, a'r rheini lle y byddai defnyddio disgrisiwn lleol yn fwy priodol. Bydd y dull llwyddiannus hwn yn parhau wrth inni ddiwygio, o bryd i'w gilydd, y codau presennol, yn ogystal â chyflwyno codau newydd.

Huw Irranca-Davies AC

Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant.



Mick Antoniw AC/AM
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

9 Chwefror 2018

Annwyl Mick

**RHEOLIADAU'R DRETH TRAFODIADAU TIR (BANDIAU A CHYFRADDAU TRETHI)
(CYMRU) 2018**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 26 Ionawr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid; rwy yn ateb ar ran y Llywodraeth mewn perthynas â'r materion a godwyd gennych ynghylch hygyrchedd deddfwriaeth.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i sicrhau bod cyfreithiau Cymru'n hygyrch, ac fel y cyfryw mae'n hanfodol eu bod yn ddealladwy, yn glir a bod modd rhagweld eu heffaith.

Ein safbwynt ni o ran diffiniadau yw na ddylid eu cynnwys ond lle maent yn hybu eglurder neu sicrwydd. Felly, os bwriedir i air fod â'r ystyr gyffredin sydd iddo mewn geiriadur, neu os yw'n amlwg o'r cyd-destun at beth y mae'r term yn cyfeirio, gallai cynnwys diffiniad beri tipyn o ddryswch.

Yn yr un modd, lle mae adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978 yn gymwys, rydym o'r farn y gallai ailadrodd diffiniad o Riant-ddeddf mewn is-ddeddfwriaeth hefyd greu ansicrwydd o ran dehongli.

Er hynny, rydym yn sicr yn cytuno â'r Pwyllgor y gall adran 11 fod yn rhwystr i ddarllenwyr deddfwriaeth ar brydiau: mae angen i'r sawl sy'n darllen is-ddeddfwriaeth wybod am fodolaeth y Rhiant-ddeddf, y diffiniad yn y Ddeddf honno, a'r rheol bod y diffiniad yn gymwys yn yr is-ddeddfwriaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

PSCounselGeneral@gov.wales
YP.CwnslerCyffredinol@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 24
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rydym eisoes wedi mynd ati i ystyried, fel rhan o'r camau nesaf yn dilyn ymgynghoriad y Llywodraeth ar Ddeddf Ddehongli i Gymru, pa gamau allai gael eu cymryd i fynd i'r afael â'r broblem hon - ac un dewis yw datgymhwyso'r rheol, a fyddai'n golygu y byddai angen diffiniadau mewn is-ddeddfwriaeth.

Rwyf yn argyhoeddedig bod angen mwy o hygyrchedd mewn deddfwriaeth ond nid wyf yn argyhoeddedig mai gwneud hynny mewn ffordd dameidiog yw'r ffordd orau o sicrhau'r canlyniad yr hoffem i gyd ei weld. Er hynny, hyd yn oed heb ddiwygio deddfwriaethol, mae cyfle i wella hygyrchedd mewn ffyrdd eraill, er enghraifft drwy ddefnyddio troednodiadau sy'n cyfeirio at ddiffiniadau allweddol yn y rhiant-ddeddfwriaeth (fel y nodwch yn eich llythyr). Yn ddi-os byddwn yn anelu at ddefnyddio dulliau gweithredu o'r fath yn llawer helaethach yn y dyfodol lle y gall hynny wella hygyrchedd. Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd gwell o ddefnyddio'r nodiadau esboniadol i dynnu sylw'r sawl sy'n darllen deddfwriaeth at ble i ddod o hyd i ddiffiniadau.

Gobeithio bod hyn yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor am ein hymrwymiad i gymryd camau i wella hygyrchedd cyfraith Cymru, ac i arferion drafftio da.

Yn gywir



Jeremy Miles
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Mark Drakeford AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

26 Ionawr 2018

Annwyl Mark

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018

Dyma ysgrifennu atoch mewn perthynas â Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018. Ystyriodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr Offeryn Statudol hwn yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2018.

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon ar fwy nag un achlysur ynghylch dibynnu ar reolau cyfreithiol (fel y'u gwelir yn adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978). Mae'r cyfryw reolau yn anghyfarwydd i'r rhan fwyaf o ddarllenwyr deddfwriaeth.

Efallai y byddai Llywodraeth Cymru yn synnu at yr holl ymholiadau sy'n cyrraedd clerod a chynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor oddi wrth bobl sydd wedi camddeall deddfwriaeth sy'n mynd drwy'r Cynulliad o ran ei hystyr a'i chymhwyso. Mae hyd yn oed enghreifftiau o gyfreithwyr sydd wedi methu â deall ein deddfwriaeth oherwydd anawsterau yn ymwneud â diffiniadau a sut mae'r diffiniadau hynny yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae hyn yn gwbl ddealladwy - nid pawb sy'n gyfreithiwr cyhoeddus sy'n ymdrin beunydd â chymhlethdodau deddfwriaeth Cymru.

Os gellir gwneud rhywbeth bach i helpu darllenwyr i ddeall deddfwriaeth (gan gynnwys rhywbeth cyn lleied a chyn symled â chynnwys troednodyn yn y rheoliadau hyn) yna barn y Pwyllgor yw y dylid gwneud hynny bob amser.

Ein disgwyl yw y bydd y materion hyn yn parhau i godi yn rheolaidd, a bydd y Pwyllgor yn parhau i godi'r mater lle mae'n credu y gellid gwneud deddfwriaeth yn fwy hygyrch ac yn haws ei darllen. Rydym hefyd yn disgwyl y byddai'r materion



hyn yn rhan o'n hystyriaethau pe bai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Dehongli ar gyfer Cymru.

Byddaf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Cwnsler Cyffredinol.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink that reads "Mick Antoniw". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underneath the name.

Mick Antoniw

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Eitem 5.2

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref LG/0055/18

David Melding AC, CBE
Cadeirydd Dros-dro
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

SeneddCLA@assembly.wales

B

Chwefror 2018

Annwyl David

Diolch am eich llythyr pellach dyddiedig 23 Ionawr ynghylch Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017. Rydych wedi gofyn am eglurhad o safbwynt ymateb Llywodraeth Cymru i bwynt 3 ar adrodd technegol, mewn perthynas ag effaith ôl-weithredol y Gorchymyn.

Mae'r angen i sicrhau bod cyfiawnhad dros ddarpariaethau ôl-weithredol sy'n ymddangos mewn deddfwriaeth yn fater hollbwysig i Lywodraeth Cymru.

Gan fod gofyn am gyfiawnhad arbennig, mae angen caniatâd y Cwnsler Cyffredin ar gyfer darpariaethau o'r fath. Rhoddodd Cwnsler Cyffredinol Cymru ar y pryd y caniatâd hwnnw a chan gadw'r caniatâd hwnnw mewn cof, a finnau eisoes wedi ymrwymo i ystyried pob buddiant perthnasol, penderfynais fod hwn yn drywydd priodol i'w ddilyn sy'n ategu'r profion cyfiawnhau a bennwyd gan y Goruchaf Lys.

*Yn gywir
Lesley*

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 28

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Lesley Griffiths AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion
Gwledig

23 Ionawr 2018

Annwyl Lesley

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Ionawr 2018. Roedd yn siom i'r Pwyllgor na chafwyd mwy o ffocws yn yr ymateb i'r pedwar cwestiwn a godwyd ganddo yn ei lythyr dyddiedig 4 Rhagfyr. Roedd gan y Pwyllgor reswm da dros ddewis y cwestiynau hynny, sef bod pryder arbennig ynghylch yr angen am gyfiawnhad arbennig o ddeddfwriaeth ôl-weithredol (deillia'r pryder hwnnw o'r wers a ddysgodd y Cynulliad o ganlyniad i ddyfarniad y Goruchaf Lys yn achos Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru) [2015] UKSC 3]).

Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau tryloywder a thrafodaeth agored ynghylch materion hawliau dynol, yn arbennig oherwydd y byddai tryloywder a thrafodaeth agored yn helpu i wrthsefyll unrhyw her gyfreithiol i ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy'r Cynulliad. O gofio bod Llywodraeth Cymru wedi ystyried amryw faterion a'i bod wedi cloriannu'r buddiannau sy'n gwrthdaro, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gael y wybodaeth hon wrth law. Felly, nid yw'r Pwyllgor yn siŵr pam nad yw'r llythyr yn defnyddio'r wybodaeth honno i sicrhau bod gan yr ymateb i'r pedwar cwestiwn fwy o ffocws.

Yn gywir



David Melding AC
Cadeiryddion Dros Dro



Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.





Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Chwefror 2018

Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru
yn unol ag Adran 3C Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965
fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 Deddf Cymru 2014

Cynnwys

Cyflwyniad

Cwmpas yr adroddiad

Cynigion sydd wedi cael eu gweithredu

Cynigion nad ydynt wedi'u gweithredu eto

Penderfyniadau a wnaed i beidio â gweithredu

Cyflwyniad

Rwy'n falch o gyflwyno'r adroddiad hwn sy'n ymwneud â gweithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith. Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol i'w gyflwyno ar ôl pasio Deddf Cymru 2014.

Roedd y Ddeddf yn diwygio Deddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 i osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn sy'n ystyried i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru wedi'u rhoi ar waith gan Weinidogion Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â'r cyfnod o 17 Chwefror 2017 i 16 Chwefror 2018.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r diweddaraf am waith Llywodraeth Cymru dros y flwyddyn a aeth heibio mewn perthynas â chynigion Comisiwn y Gyfraith, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad Ffur a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen hefyd at ganlyniad adolygiadau eraill gan Gomisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys y prosiect sy'n gysylltiedig â chyfraith gynllunio yng Nghymru.

Mae'r cynnydd sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn yn dangos y pwys y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi ar gynigion Comisiwn y Gyfraith.

**Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru**

16 Chwefror 2018

Cwmpas yr adroddiad

1. Mae Adran 3C o Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965, fel y'i mewnosodwyd gan Adran 25 o Ddeddf Cymru 2014, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn sy'n ystyried i ba raddau y mae cynigion Comisiwn y Gyfraith wedi'u gweithredu gan Lywodraeth Cymru.
2. Dyma'r trydydd adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi gan Weinidogion Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r cyfnod o 17 Chwefror 2017 i 16 Chwefror 2018.
3. Fel y pennir gan y Ddeddf, mae'r adroddiad yn cwmpasu cynigion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd wedi cael eu gweithredu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, a'r cynigion sy'n ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru sydd heb eu gweithredu, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gweithredu a phenderfyniadau a wnaed i beidio â gweithredu cynigion.
4. Mae'r adroddiad yn cwmpasu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr yn unig i'r graddau y maent yn ymwneud â materion datganoledig yng Nghymru.

Cynigion sydd wedi cael eu gweithredu

Rheoleiddio Gweithwyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Proffesiynol

5. Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ei llywio gan adroddiad Comisiwn y Gyfraith 2014 a'r bil drafft ar reoleiddio gweithwyr iechyd yn y Deyrnas Unedig (DU) a gweithwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr. Mae'r Ddeddf a luniwyd, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016, yn ceisio gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru ac mae'n cadarnhau trefniadau diogelu ar gyfer dinasyddion.
6. Mae Deddf 2016 yn cael ei rhoi mewn grym a'i gweithredu mewn tri chyfnod. Cymerodd y cyntaf o'r tri chyfnod hwn effaith ar 3 Ebrill 2017. Rhoddodd effaith i ailgorffori Cyngor Gofal Cymru, ac ymestyn ei gylch gwaith, a'i eilenwi'n Gofal Cymdeithasol Cymru ac i reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r ail a'r trydydd gyfnod, sydd eisoes ar y gweill, yn ymwneud â'r gyfundrefn reoleiddio ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth a materion cysylltiedig eraill.

Cynigion nad ydynt wedi'u gweithredu eto

Ffurf a Hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru: prosiect cynghori

7. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar ffurf, cyflwyniad a hygyrchedd y gyfraith sy'n ymwneud â Chymru ar 29 Mehefin 2016. Gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru sy'n ceisio sicrhau gwelliannau yn yr agweddau hynny ar y gyfraith bresennol a deddfwriaeth yn y dyfodol yng Nghymru.
8. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hymateb terfynol ar 19 Gorffennaf 2017. Mae'r adroddiad yn darparu glasbrint defnyddiol ar gyfer y ffordd y gall Llywodraeth Cymru ac eraill weithredu i sicrhau bod cyfreithiau Cymru'n fwy hygyrch. Derbyniodd Llywodraeth Cymru, neu dderbyn mewn egwyddor, yr holl argymhellion ar gyfer y llywodraeth heblaw am un ohonynt. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi dechrau gweithredu'r argymhellion hyn drwy roi ar waith raglen beilot ar gyfer cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru a'i chyhoeddi'n well. Dechreuodd y rhaglen honno yn 2017 a bydd yn parhau yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn hon.

Galluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid

9. Cafodd prosiect Comisiwn y Gyfraith ar y gyfraith sy'n ymwneud â galluedd meddyliol ac amddifadu o ryddid ei noddi gan Adran Iechyd Llywodraeth y DU. Mae'r prosiect yn ymwneud â chyfraith galluedd meddyliol yng Nghymru a Lloegr. Deddf y DU yw'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ond mae gan Weinidogion Cymru bwerau gwneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â Chymru.
10. Cafodd adroddiad terfynol Comisiwn y Gyfraith ar Alluedd Meddyliol ac Amddifadu o Ryddid ei gyhoeddi ar 13 Mawrth 2017 gan wneud argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith a oedd yn cynnwys Bil drafft. Cyhoeddwyd ymateb interim gan Adran Iechyd Llywodraeth y DU ar 30 Hydref 2017 a oedd yn cyflwyno proses ymgynghori ag amrywiol randdeiliaid yng Nghymru a Lloegr i ddeall mewn mwy o fanylder sut y gellir rhoi newidiadau ar waith. Dywedodd y byddai ei Hymateb Terfynol yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2018 ac y byddai'n rhoi ymateb manylach i argymhellion Comisiwn y Gyfraith yr adeg honno.
11. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw gynig a gyflwynir gan Lywodraeth y DU ar y mater hwn yn fanwl, er mwyn penderfynu a ydy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Prosiectau Comisiwn y Gyfraith yn y Presennol a'r Dyfodol

13^{eg} Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith

12. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei 13eg Rhaglen o Ddiwygio'r Gyfraith ar 14 Rhagfyr 2017. Mae'r Rhaglen yn cynnwys 14 o feysydd newydd o'r gyfraith a fydd yn destun adolygiadau'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod er mwyn penderfynu ar brosiect diwygio'r gyfraith ar gyfer Cymru yn unig. Adeg cyhoeddi nid oedd unrhyw faes penodol a fyddai'n addas ar gyfer prosiect diwygio'r gyfraith i Gymru yn unig wedi deillio o'r trafodaethau hyn. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi rhoi adnoddau o'r neilltu i gefnogi o leiaf un prosiect i Gymru yn unig o dan y Rhaglen, ac mae Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn yn hyderus y byddwn yn gallu dod o hyd i faes gwaith priodol, a fyddai'n cael ei fabwysiadu gan y Comisiwn fel cyfeiriad Gweinidogol gan Lywodraeth Cymru a'i gynnal ochr yn ochr â'r brif Raglen.

13. Mae'r 13eg Rhaglen i'w gweld yma:

<https://www.lawcom.gov.uk/13th-programme-of-law-reform/>

Y Gyfraith Gynllunio yng Nghymru

14. Mae'r prosiect hwn yn adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud â chynllunio gwlad a thref yng Nghymru. Bydd yn gwneud argymhellion ar delerau deddfwriaeth gynllunio wedi'i symleiddio a'i chydgrynhoi, a'r nod yw disodli deddfwriaeth sylfaenol a'i chynnwys mewn Deddf neu Ddeddfau newydd wedi'u cydgrynhoi, fel rhan o God Cynllunio Cymru.

15. Penderfynodd y Comisiwn yn derfynol ar ei argymhellion ar gyfer ymgynghori ar gwmpas y prosiect a'i gynigion ar gyfer diwygio technegol gan ystyried yr ymatebion i'r Papur Cwmpasu ar Gyfraith Gynllunio yng Nghymru (Mehefin 2016) ac adolygiad cynhwysfawr o'r ddeddfwriaeth a'r gyfraith achosion berthnasol. Cafodd y papur ymgynghori manwl ei gyhoeddi ar 30 Tachwedd 2017, yn gofyn i'r ymatebion gael eu cyflwyno i'r Comisiwn cyn 1 Mawrth 2018. Mae rhaglen wedi'i chynnal gan y Comisiwn hefyd i ennyn diddordeb rhanddeiliaid allweddol o'r sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector yn ystod y tri mis hwn o ymgynghori.

16. Ar sail yr ymatebion a ddaw i law i'r ymgynghoriad, bydd y Comisiwn yn llunio adroddiad terfynol i'w gyhoeddi yn ystod yr haf 2018 a fydd yn nodi ei argymhellion terfynol i'w hystyried gan Lywodraeth Cymru.

Penderfyniadau a wnaed i beidio â gweithredu

17. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw benderfyniad i beidio â gweithredu adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Ein cyf / Ein cyf

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

21 Chwefror 2018

Annwyl Mick,

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am graffu ar Fil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 y broses deddfwriaethol. Rwyf wedi nodi ymatebion i'r deg argymhelliad a wnaed yn adroddiad craffu Cyfnod 1 y Pwyllgor ar y Bil isod.

- 1) *Rydym yn argymhell bod y Gweinidog, yn ystod dadl Cyfnod 1, yn cyfiawnhau'r rhesymau dros gyflwyno Bil sy'n diwygio deddfwriaeth bresennol y DU yn hytrach na Bil cydgrynhoi, annibynnol.*

Derbyniaf yr argymhelliad hwn ac rwy'n falch o ailadrodd ac ychwanegu at y pwyntiau a wneuthum yn fy araith agoriadol yn y ddadl ar Egwyddorion Cyffredinol y Bil, ynghylch y rhesymau pam na wnaethom gyflwyno Bil i gydgrynhoi deddfwriaeth yn y maes hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Materion Deddfwriaethol am ei ddiddordeb parhaus mewn cydgrynhoi'r gyfraith ddatganoledig, a'i gefnogaeth i hynny.

Rydym yn ymwybodol iawn o fanteision cydgrynhoi cyfraith ddatganoledig Cymru, gan wneud y gyfraith honno'n haws i'w chanfod ac yn haws ei deall, a chynyddu'r gyfraith ddwyieithog mewn meysydd datganoledig. Roedd ein hymateb i argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn adroddiad y Comisiwn ar Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru yn glir ynghylch manteision cydgrynhoi.

Fodd bynnag, rwy'n siŵr bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi ei bod yn debygol y bydd angen parhaus am Ffiliau i newid y gyfraith at ddibenion penodol ac, er mai ein nod hirdymor yw cydgrynhoi cyfraith ddatganoledig Cymru, nid yw hyn yn golygu y gallwn ymrwymo i gydgrynhoi'r gyfraith mewn maes penodol bob tro y mae angen inni wneud newidiadau i'r gyfraith honno.

Y rheswm am hyn yw y bydd angen ystyried yr angen i gydgrynhoi fesul Bil unigol bob tro. Mae hyn yn golygu ystyried yr adnoddau sydd ar gael, ac ai dyma'r amser cywir (yng ngoleuni ffactorau megis newidiadau eraill sy'n digwydd ym maes y gyfraith) i gydgrynhoi.

Pe baem wedi ceisio cydgrynhoi'r gyfraith gyfan sy'n ymwneud â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel rhan o'r Bil hwn, yn ogystal ag arwain at broblem o ran adnoddau, byddai perygl na fyddai'r broses gydgrynhoi wedi ei chwblhau mewn pryd i osgoi canlyniadau ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan yr ONS. O ystyried arwyddocâd y canlyniadau hynny, yn fy marn i, byddai cymryd y risg honno wedi bod yn gamgymeriad.

Fel y dangosodd ymateb Llywodraeth Cymru i Gomisiwn y Gyfraith, mae cydgrynhoi yn dasg fawr y mae angen adnoddau sylweddol ar ei chyfer. Gwn fod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'n llwyr nad mater syml o gopi'r ddeddfwriaeth bresennol a'i throsglwyddo i Fil newydd yw cydgrynhoi. Pan fo darpariaethau deddfwriaethol sydd wedi bodoli ers blynnyddoedd lawer yn cael eu harchwilio yn ystod proses gydgrynhoi, mae'n anochel y bydd nifer o gwestiynau'n codi am eu hystyr a'u hygyrchedd, ac a ydynt yn dal i weithredu'n briodol yn y dirwedd deddfwriaethol bresennol. Mae hyn yn arbennig o wir lle mae datganoli wedi ymyrryd ers i'r darpariaethau gael eu deddfu'n wreiddiol.

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn a allai Llywodraeth Cymru fod wedi dechrau gweithio ar y prosiect hwn ym mis Hydref 2015 pan benderfynodd yr ONS y dylid ailddosbarthu cymdeithasau tai Lloegr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn awgrymu y gallem fod wedi cael cyfnod hwy i gynnal prosiect cydgrynhoi, gan ddibynnu ar sicrwydd gan y Trysorlys y gallai ymestyn y cyfnod datgymhwyso rheolaethau cyfrifyddu dros dro y tu hwnt i fis Mawrth 2018, ar yr amod ein bod wedi gwneud cynnydd digonol gyda'r newidiadau deddfwriaethol y mae'r ONS yn ystyried bod eu hangen.

Fel y dywedais yn ystod y ddadl, mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael eu llywodraethu gan wahanol ddeddfwriaeth a chyfundrefn reoleiddiol wahanol i gymdeithasau tai yn Lloegr, ac ni chyhoeddodd yr ONS ganlyniad ei adolygiad mewn perthynas â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig tan fis Medi 2016. Dilynwyd hynny gan broses o sefydlu gyda'r ONS yn union pa newidiadau deddfwriaethol yr oedd angen inni eu gwneud er mwyn cyflawni ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Hyd yn oed pe bai wedi bod yn dechnegol bosibl cychwyn y prosiect ym mis Hydref 2015, byddai wedi bod yn rhaid dod o hyd i adnoddau ychwanegol sylweddol mewn perthynas â pholisi, y gyfraith, drafftio a chyfieithu er mwyn ei gyflawni. Ar y pryd, roedd ein hadnoddau eisoes wedi'u hymrwymo i rannau eraill o'r rhaglen deddfwriaethol.

Gan roi'r adnoddau y byddai eu hangen i'r naill ochr, byddai'r cyfnod a ddechreuodd ym mis Medi 2016 yn llawer rhy fyr i ddefnyddio'r Bil hwn ar gyfer prosiect cydgrynhoi. O ran y posibilrwydd o ddarbwylo'r Trysorlys i ymestyn y cyfnod datgymhwyso rheoliadau cyfrifyddu dros dro ar y sail ein bod yn gwneud cynnydd digonol gyda'r newidiadau deddfwriaethol i hwyluso ailddosbarthu, byddai cydgrynhoi wedi arafu'r cynnydd hwnnw'n sylweddol. Yn fy marn i, byddai wedi bod yn amhriodol cymryd y risg y byddai'r Trysorlys yn barod i roi estyniad i gwmpasu'r broses gydgrynhoi hwy.

2) Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus y posibilrwydd o gydgrynhoi'r gyfraith yn y maes hwn y tro nesaf y bydd cyfle i wneud hynny.

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn gan fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried cydgrynhoi cyfraith ddatganoledig Cymru, a sut y gellid symud ymlaen gyda hynny.

Fodd bynnag, fel y dywedais hefyd mewn ymateb i Argymhelliad 1, y rheswm am hyn yw y bydd angen ystyried cydgrynhoi fesul Bil unigol bob tro.

Bydd yr adnoddau sydd ar gael a sut i flaenoriaethu eu defnydd yn ffactor pwysig yn y penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â chydgrynhoi cyfraith benodol. Fodd bynnag, ffactor arall yw a yw diwygiadau parhaus eisoes ar y gweill mewn maes penodol, ac a fyddai'n synhwyrol aros nes bydd y diwygiadau hynny'n cael eu gweithredu'n llawn cyn dechrau cydgrynhoi deddfwriaeth.

Wrth gwrs, mae'r gyfraith ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn rhan o'r maes tai datganoledig llawer mwy. Mae'n faes sy'n cwmpasu swm sylweddol iawn o ddeddfwriaeth ac mae'n faes y mae Llywodraeth Cymru yn ei gydnabod fel un a fyddai'n elwa'n fawr o gydgrynhoi.

Mae'n faes lle rydym eisoes wedi gwneud newidiadau deddfwriaethol sylweddol, ac yn ceisio gwneud y gyfraith yn fwy hygyrch, er enghraifft drwy Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Yn ddiweddar iawn wrth gwrs, pasiodd y Cynulliad Ddeddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018.

Mae ehangder y maes tai yn golygu y byddai angen adnodd sylweddol er mwyn ymgymryd ag unrhyw broses gydgrynhoi, a bydd angen mynd i'r afael â'r mater hwnnw cyn y gallwn fwrw ymlaen â chydgrynhoi.

3) Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant er mwyn nodi ar wyneb y Bil y bydd unrhyw benodiadau a wneir o dan adrannau 6 neu 8 yn dod i ben pan gydymffurfir â'r gofyniad perthnasol neu phan fydd y methiant perthnasol wedi'i ddatrys gan fodloni Gweinidogion Cymru.

Nid wyf yn bwriadu cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r mater hwn gan fy mod yn pryderu y gallai arwain at nifer o anawsterau.

Gallai terfynu penodiad yn 'awtomatig' yn sgil amgylchiadau penodol arwain at ansicrwydd ynghylch pryd y bydd penodiad rhywun wedi dod i ben. Ar ben hynny, ni fyddai'n caniatáu ar gyfer cyfnod pontio lle y byddai'r swyddog yn aros yn ei swydd tra, er enghraifft, y bydd Gweinidogion Cymru yn bodloni eu hunain bod y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig bellach yn gallu gweithredu heb gymorth y swyddog.

Mae'r gyfundrefn reoleiddio bresennol yn cynnwys mesurau diogelu ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n sicrhau na fydd swyddogion neu reolwyr a benodir gan Weinidogion Cymru i ymdrin â phroblem benodol yn aros yn eu swyddi yn hwy nag sy'n angenrheidiol.

- 4) *Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i adran 13(2) o'r Bil i'w gwneud yn glir mai dim ond mewn perthynas â Chymru y mae adran 81 o Ddeddf Tai 1988 yn cael ei diddymu.*
- 5) *Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn ceisio cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch yr amserlenni ar gyfer dileu cyfeiriadau at Loegr yn Neddf Tai 1988.*

Rwyf wedi ystyried y mater hwn yn ofalus ac rwy'n fodlon bod adran 13(2) o'r Bil, fel y mae, yn gywir.

Rwy'n gwerthfawrogi, lle mae deddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru a Lloegr yn cael ei diwygio gan un o Ddeddfau'r Cynulliad, bod hygyrchedd ac eglurder y ddeddfwriaeth a fydd yn parhau i fod yn gymwys yn Lloegr o'r pwys mwyaf.

Fodd bynnag, mewn perthynas ag adran 81 o Ddeddf Tai 1988, ar ôl i'r gofyniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael caniatâd i waredu tir gael ei ddileu, ni fydd gan yr adran unrhyw effaith bellach mewn perthynas â Lloegr.

Mae Adran 81 yn berthnasol i warediadau tir yn unig gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, lle y mae'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig wedi caffael y tir hwnnw gan Ymddiriedolaeth Gweithredu Tai. Mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig wedi'u cofrestru yng Nghymru ac mae'n rhaid iddynt fod yn ymwneud yn bennaf â thai yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig rhag bod yn berchen ar eiddo a rheoli eiddo yn Lloegr (ond, yn ymarferol, mae bod yn berchen ar dir a'i reoli yn Lloegr yn cyfrif am gyfran fach iawn o weithrediadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig).

Er mwyn dileu rheolaethau'r llywodraeth ganolog i'r graddau y mae eu hangen i ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, mae angen diddymu adran 81 yn ei chyfanrwydd. Mae wedi'i diddymu eisoes mewn perthynas â darparwyr cofrestredig dielw (sef y rhai sy'n cyfateb i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn Lloegr).

Bydd y diddymiad yn dileu swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol i gydsynio i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig waredu tir yr hen Ymddiriedolaeth Gweithredu Tai os yw'r tir hwnnw yn Lloegr. Nid yw diddymu swyddogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol yn codi unrhyw fater ar wahân yn ymwneud ag egwyddor ac rydym yn fodlon bod ei effaith yn atodol i brif bwrpas y diddymiad, neu'n ganlyniadol, sef dileu'r gofyniad i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gael caniatâd y llywodraeth ganolog ar gyfer gwarediadau.

- 6) *Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant fel ei bod yn glir ar wyneb y Bil bod y diffiniad newydd o "notify" i'w fewnosod yn adran 63 o Ddeddf Tai 1996 ar ôl y diffiniad o "notice" a chyn y diffiniad o "public sector landlord".*

Rwy'n fodlon bod y ddarpariaeth sy'n mewnosod y diffiniad o "notify" yn adran 63 o Ddeddf Tai 1996 wedi'i ddrafftio yn y ffordd fwyaf priodol.

Wrth fewnosod diffiniad newydd mewn rhestr o ddiffiniadau, arfer drafftio cyffredin yw nodi y dylai'r diffiniad newydd gael ei fewnosod "yn y man priodol", yn hytrach na nodi rhwng pa ddiffiniadau presennol y dylai ymddangos. Mae hyn oherwydd ei bod yn bosibl, cyn i'r gwelliant gael ei gychwyn, y gallai darn arall o ddeddfwriaeth fewnosod diffiniad arall yn y man lle roedd y gwelliant yn bwriadu mewnosod diffiniad.

Drwy nodi bod y diffiniad newydd i'w fewnosod "yn y lle priodol", mae'n golygu y gellir ei fewnosod yn y lle cywir yn nhrefn yr wyddor ar yr adeg y caiff y mewnosodiad ei gychwyn.

7) *Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i orfodi Gweinidogion Cymru, o fewn 14 diwrnod ar ôl rhoi cyfarwyddyd o dan adran 5 neu 14, i sicrhau bod testun y cyfarwyddyd yn cael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ynghyd â datganiad ysgrifenedig i egluro pwrpas y cyfarwyddyd.*

Rwyf wedi ystyried y mater hwn ac rwy'n fodlon, o ystyried natur a chynnwys y cyfarwyddiadau sydd i'w rhoi o dan y darpariaethau newydd yn adrannau 5 ac 14 o'r Bil, bod y ddarpariaeth fel y saif ar hyn o bryd yn gymesur o dan yr amgylchiadau. Felly, rwyf wedi penderfynu peidio â chyflwyno gwelliant mewn perthynas â'r mater hwn.

Fodd bynnag, rwy'n fwy na pharod i ymrwymo y bydd cyfarwyddiadau a roddir o dan y darpariaethau newydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cwmpas y cyfarwyddiadau sydd i'w rhoi o dan y darpariaethau hyn yn gyfyngedig iawn. Bydd y cyfarwyddiadau'n ymdrin â chyflwyno, ffurf a chynnwys hysbysiadau i'w rhoi i Weinidogion Cymru, a'r terfynau amser ar gyfer gwneud hynny. Felly mae'r cyfarwyddiadau yn ymdrin â materion gweinyddol.

Mae nifer o bwerau gwneud cyfarwyddiadau eraill eisoes yn Neddf Tai 1996, ac ar draws amrywiaeth eang o ddeddfwriaeth, nad oes angen eu gosod gerbron y Cynulliad.

8) *Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i newid geiriad adran 18(1) o'r Bil i nodi y gellir gwneud, drwy reoliadau, unrhyw ddarpariaethau cysylltiedig neu ganlyniadol sydd eu hangen ym marn Gweinidogion Cymru at ddibenion unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Bil neu unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil, mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth o'r fath, neu er mwyn rhoi effaith lawn i'r fath ddarpariaeth.*

Mae'r pŵer yn adran 18 yn un cyfyngedig iawn. Ni ellid ei ddefnyddio i wneud dim nad oes ganddo gysylltiad agos â darpariaethau'r Bil.

O ran y geiriad a argymhellir gan y Pwyllgor, rwy'n credu bod gofyniad i ddiwygiad fod yn "angenrheidiol", yn hytrach na "priodol", cyn y gellir ei wneud o dan y pŵer hwn, yn amod rhy lym. Efallai y bydd sawl ffordd o ddelio â darpariaeth benodol yr effeithir arni gan y Bil, ac mae angen i Weinidogion Cymru allu dewis y ffordd sydd fwyaf priodol i wneud y gyfraith yn glir a sicrhau ei bod yn gweithredu'n iawn.

Os na allai Gweinidogion Cymru wneud dim mwy na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol wrth wneud diwygiadau, gallai gyfyngu ar eu gallu i wneud i'r gyfraith bresennol weithio'n effeithiol yn dilyn y newidiadau a wnaed gan y Bil.

Mewn perthynas ag argymhelliad gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion lunio gwelliant i nodi cwmpas y pŵer yn gliriach.

9) *Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i nodi y bydd y pwerau a ddarperir gan y ddarpariaeth hon yn dod i ben ar y dyddiad y cyhoeddir cadarnhad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu hailddosbarthu yn gorfforaethau preifat anariannol,*

Efallai y byddai'n ddefnyddiol imi gadarnhau na ellir defnyddio'r pŵer hwn i wneud diwygiadau pellach at ddibenion hwyluso ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gan yr ONS. Ei ddiben yw gwneud diwygiadau sy'n codi o ganlyniad i'r newidiadau i'r gyfraith a wneir yn benodol gan y Bil.

Pe bai'r pŵer i wneud gwelliannau yn dod i ben fel yr awgrymwyd gan y Pwyllgor ac nad oedd y rheoliadau diwygio wedi'u gwneud eto, byddai ein gallu i'w gwneud yn dod i ben.

At hynny, er ein bod yn gwneud ein gorau glas i nodi'r holl ddarpariaethau y mae angen eu diwygio ac ymdrin â hwy mewn un set o reoliadau, mae'n bosibl y bydd darpariaeth yn dod i'r amlwg wedi hynny. Mae hefyd yn bosibl bod angen diwygio'r darpariaethau a wneir ar ôl y dyddiad aiddosbarthu.

Rwyf o'r farn felly y byddai pŵer i wneud diwygiadau sy'n dod i ben fel yr awgrymir gan y Pwyllgor yn rhy gyfyngol i sicrhau ein bod yn gallu diwygio'r holl ddarpariaethau a allai gael eu heffeithio gan y Bil hwn.

10) Rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i Atodlen 1 i'r Bil i ddileu'r geiriau "but the landlord may not remove an appointee until after the 2 month period expires" o adran 7C(3) i'w fewnosod i mewn i Ddeddf Tai 1996.

Rwyf wedi derbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor a byddaf yn cyflwyno gwelliant i fynd i'r afael â'r mater a godwyd gan y Pwyllgor.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i egluro un pwynt a godwyd yn yr adroddiad ynghylch paragraff 9 yn Atodlen 2 i'r Bil a'r cysylltiad â Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018 (Deddf 2018). Mae'r dyddiad ar gyfer y diddymu terfynol bellach wedi'i bennu fel 26 Ionawr 2019 (gweler Gorchymyn Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018 (Darpariaethau Cychwyn ac Arbed) 2018). Os bydd y Bil hwn yn symud ymlaen fel y rhagwelir, dylai ddod i rym cyn y diddymiad terfynol. Felly, bydd angen i'r Bil hwn ddiwygio adran 16 Deddf Tai 1996, cyn iddi gale ei diddymu gan Deddf 2018 ar 26 Ionawr 2019.

Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol o ran amlinellu'r ymatebion i adroddiad y Pwyllgor. Byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeiryddion y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Cyllid ynghylch eu hadroddiadau Cyfnod 1, a byddaf yn anfon copïau o'r llythyrau at Gadeiryddion y tri Phwyllgor.

Edrychaf ymlaen at barhau i weithio gydag Aelodau wrth i'r Bil fynd ar ei hynt drwy'r Cynulliad.

Yn gywir,



Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration



Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddMCD@cynulliad.cymru

19 Chwefror 2018

Annwyl Mick

Rwy'n ymateb i'ch llythyr dyddiedig 8 Chwefror yn amgau adroddiad y Pwyllgor ar lywodraethiant y DU ar ôl ymadael â'r UE. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith; fe fydd y Cwnsler Cyffredinol yn ymateb ar ran Llywodraeth Cymru yn ystod y ddadl ar Chwefror 28ain.

Yn gywir

CARWYN JONES

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mick Antoniw AM
Chair, Constitutional and Legislative Affairs
Committee

19 February 2018


Dear Mick,

European Withdrawal Bill – Output to the House of Lords

Please find attached correspondence that the External Affairs and Additional Legislation Committee have circulated to members of the House of Lords regarding the EU Withdrawal Bill.

The correspondence includes the Committee's six objectives that we believe need to be met in order for the Committee to recommend that the Assembly grants its consent for the Bill.

Yours sincerely,



David Rees AM,

Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Ty'r Arglwyddi
Llundain
SW1A 0PW

19 Chwefror 2018

Annwyl Aelod o Dŷ'r Arglwyddi,

Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)

Rwy'n ysgrifennu i ofyn am eich cefnogaeth i'r newidiadau i Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) y credwn ni, Pwyllgor Materion Allanol y Cynulliad, sy'n angenrheidiol.

Nodir y newidiadau hyn fel chwe amcan. Amcanion pwyllgor trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru ydynt. Yn fyr, y Pwyllgor Materion Allanol yw Pwyllgor Brexit y Cynulliad. Fe'i sefydlwyd gan y Cynulliad i ystyried y goblygiadau i Gymru o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd a diogelu buddiannau Cymru yn y broses ymadael, a gwneud trefniadau ar gyfer y cyfnod ar ôl gadael.

Mae'r amcanion yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig a llafar a gafwyd gan ystod eang o randdeiliaid ac maent wedi elwa o fewnbwn arbenigwyr cyfansoddiadol a chyfreithiol ledled y Deyrnas Unedig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym ym mis Mehefin 2017 ar y Papur Gwyn sy'n gysylltiedig â'r Bil Ymadael: [Papur Gwyn ar Fil y Diddymu Mawr: Y goblygiadau i Gymru](#)

Cyn nodi ein hamcanion, hoffwn bwysleisio eto **nad ydym, mewn unrhyw ffordd, yn ceisio rhwystro'r DU rhag ymadael â'r UE.** Fel y dywedasom yn ein hadroddiad ar y Papur Gwyn, rydym yn deall yr angen i gadw a throsi cyfraith yr UE a'i gwneud



yn weithredadwy o'r diwrnod ymadael. Mae ein pryder yn ymwneud â'r ymdriniaeth o'r setliad datganoli a'r diffyg ymgysylltu â'r Cynulliad, drwy ei bwyllgorau, mewn perthynas â dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru a gwneud trefniadau craffu.

Mae gennym rôl ffurfiol ym mhroses y Cynulliad i ystyried a ddylid rhoi ei gydsyniad deddfwriaethol i'r Bil.

Rydym wedi cyhoeddi [adroddiad interim ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol](#) ynghlwm wrth y Bil. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn argymhell y dylai'r Cynulliad gadw ei gydsyniad yn ôl ar gyfer y Bil yn ei ffurf bresennol.

Bydd ymateb Senedd y DU i'r chwe amcan a nodir isod yn effeithio'n sylweddol o ran a allwn adolygu ein sefyllfa ac argymhell bod y Cynulliad yn rhoi ei gydsyniad ai peidio.

Ein chwe amcan yw:

1. Dileu cyfyngiadau Cymal 11 ar y setliad datganoli.
2. Sicrhau bod Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad yn gyfrifol am gywiro pob agwedd ar gyfraith sy'n deillio o'r UE mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig.
3. Sicrhau cyfyngiadau llym i'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan y Bil a'u bod yn llawer mwy tyn na'r rhai a nodir yn y Bil ar hyn o bryd.
4. Atal Gweinidogion y DU rhag diwygio agweddau ar gyfraith sy'n deillio o'r UE sy'n effeithio ar Gymru oni bai ei bod yn ymwneud â maes a gedwir yn ôl.
5. Atal Gweinidogion y DU neu Weinidogion Cymru rhag diwygio Deddf Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio pwerau dirprwyedig.
6. Sicrhau y gall y Cynulliad bennu ei drefniadau craffu ei hun.



Mae papur ynghlwm wrth y llythyr hwn sy'n egluro pob un o'r amcanion hyn. Er ein bod yn cynnal ein dymuniad i sicrhau y cyflawnir pob amcan yn llawn, rydym wedi ystyried y ddadl a'r ymateb iddynt yn Nhŷ'r Cyffredin.

I'r perwyl hwnnw, rydym yn parhau'n agored i ystyried awgrymiadau pragmatig, i fynd yn nes at ein safbwynt mewn rhai meysydd.

Lle mae hyn yn wir, rydym wedi nodi hyn yn y papur atodedig.

Rydym yn ymwybodol y bydd rhagor o welliannau yn debygol o gael eu cyflwyno, gan gynnwys gwelliannau gan Lywodraeth y DU. Byddwn yn ystyried y rhain ar ôl iddynt gael eu cyflwyno a gobeithio y bydd modd iddynt gyfrannu at gyflawni ein hamcanion.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os hoffech drafod yr amcanion hyn yn fwy manwl, cysylltwch â mi.

Yn gywir,



David Rees AM, Chair of the External Affairs and Additional Legislation Committee

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Amcan 1: Dileu cyfyngiadau Cymal 11 ar y setliad datganoli

Esboniad

Er bod y Pwyllgor o'r farn y bydd angen fframweithiau ar gyfer y DU gyfan mewn sawl maes polisi, cred hefyd y dylai'r rhain gael eu cytuno ar sail cydraddoldeb rhwng Llywodraethau a deddfwrfeydd y Deyrnas Unedig yn hytrach na chael eu gorfodi gan Lywodraeth y DU, hyd yn oed os yw hynny am gyfnod byr o amser yn unig.

Mae Cymal 11, fel y'i drafftwyd, yn gosod cyfyngiad newydd a sylweddol ar y setliad datganoli ac yn symud dynameg y pŵer o ran gosod fframweithiau cyffredin y DU yn bendant i gyfeiriad Llywodraeth y DU. Nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu dim gwybodaeth am sut y cytunir ar y fframweithiau cyffredin hyn, yr amserlen ar gyfer cytuno arnynt, na sut y bydd Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig yn rhan o'r broses hon.

At hynny, mae'r ffaith bod Llywodraeth y DU yn gweithredu fel Llywodraeth Lloegr mewn nifer o feysydd polisi'r Undeb Ewropeaidd yn cymhlethu hyn ymhellach. Mae hyn yn arwain at bosibilrwydd o wrthdaro buddiannau o ran gosod strwythurau ar gyfer y DU gyfan.

Dywedodd yr Athro John Bell wrth y Pwyllgor *"Clause 11 is drafted in such a way as to hide the extent of the restriction on the future competences of devolved assemblies."*

Dywedodd y Sefydliad Materion Cymreig yn ei dystiolaeth:

"It is no-one's interest for a Withdrawal Bill not to be enacted and provide a legal safety net when the UK leaves the jurisdiction of EU law. However, in its current form, this Bill fails to respect the power already granted to the elected governments in Scotland and Wales, and to respect the democratic legislatures in Northern Ireland, Wales and Scotland."

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o ymrwymiad Llywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau i Gymal 11 cyn i'r Bil adael Tŷ'r Arglwyddi.

Pe bai'r gwelliannau hyn yn bodloni'r amcan hwn, yna bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu eto i gadarnhau hyn.

Amcan 2: Sicrhau bod Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad yn gyfrifol am gywiro pob agwedd ar gyfraith sy'n deillio o'r UE mewn meysydd o gymhwysedd deddfwriaethol datganoledig

Esboniad

Y ffordd fwyaf priodol ac effeithlon, o safbwynt cyfansoddiadol, o gywiro cyfraith yr UE yw sicrhau bod Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad yn gyfrifol am wneud cywiriadau i bob maes o gyfraith yr UE a drosglwyddir sydd o fewn eu cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.

Byddai'r opsiwn culach (fel y darperir yn y Bil) o ganiatáu i Weinidogion Cymru a'r Cynulliad gywiro deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE mewn meysydd datganoledig yn unig yn arwain at broses llai effeithlon o ymadael. Mae deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE yn cynnwys deddfau domestig y DU sydd eisoes wedi'u pasio gan Senedd y DU neu ddeddfwrfeydd datganoledig i weithredu gofynion cyfraith yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am weithredu cyfraith yr UE mewn meysydd datganoledig, ac mae hynny'n wir ers 20 mlynedd. Maent yn meddu ar y wybodaeth sydd ei hangen i wneud cywiriadau synhwyrol i gyfraith yr UE mewn meysydd datganoledig. Pe bai Gweinidogion y DU yn ceisio gwneud cywiriadau mewn meysydd datganoledig, byddai angen iddynt ofyn am fewnbwn arbenigol Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus Cymru cyn drafftio cywiriadau o'r fath. Mae galluogi Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad i gywiro pob agwedd ar gyfraith sy'n deillio o'r UE mewn meysydd datganoledig yn ddull mwy effeithlon a phriodol, o safbwynt cyfansoddiadol, o gywiro cyfraith sy'n deillio o'r UE mewn meysydd datganoledig.

Rhoddodd Cytûn yr asesiad a ganlyn yn ei dystiolaeth:

"Darpariaethau sy'n caniatáu i Weinidogion y Coron, yn eu gwaith fel gweinidogion â chyfrifoldeb dros faterion yn Lloegr a ddatganolir i'r cenhedloedd eraill, newid y gyfraith yn Lloegr tra bod gweinidogion yng Nghymru wedi eu rhwystro rhag newid y gyfraith yn yr un meysydd yng Nghymru. Mae hyn yn creu annhegwch ac anghyfartaledd rhwng cenhedloedd y DU, a gallai beryglu gweithredu llyfn marchnad sengl y DU, er mai diogelu hynny yw un o brif nodau'r Bil."

Amcan 3: Sicrhau cyfyngiadau llym i'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru o dan y Bil a'u bod yn llawer mwy tyn na'r rhai a nodir yn y Bil ar hyn o bryd

Esboniad

Rydym yn cydnabod bod achos dros ddirprwyo pŵer i Weinidogion Cymru, ac y bydd angen i'r pŵer hwn fod yn eang o ran y ddeddfwriaeth y mae'n berthnasol iddi. Fodd bynnag, **rhaid cyfyngu'r pŵer yn ddieithriad i'r dibenion y'u bwriadwyd.**

Fel y nododd llawer o Aelodau Seneddol yn ystod yr Ail Ddarlleniad, mae'r pwerau a gynigir ar gyfer y weithrediaeth yn y Bil hwn yn eithriadol o eang ac yn ddarostyngedig i reolaethau cyfyngedig.

Oni chaiff y Bil ei ddiwygio i osod cyfyngiadau priodol ar y pwerau hyn, mae perygl iddo ansefydlogi'r ddynmeg o ran pŵer rhwng y weithrediaeth a'r ddeddfwrfa ar lefel y DU ac ar lefel ddatganoledig. O ran y berthynas rhwng y Senedd a Gweinidogion y DU, dyma ganfyddiadau'r Pwyllgor Craffu ar Bwerau Dirprwyedig yn Nhŷ'r Arglwyddi:

“The European Union (Withdrawal) Bill gives excessively wide law-making powers to Ministers, allowing them to make major changes beyond what is necessary to ensure UK law works properly when the UK leaves the EU.”

Cred y Pwyllgor Materion Allanol fod yr un peth yn wir am y pwerau a gynigir, ac a geisir, ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Er bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban wedi ceisio cysoni'r pwerau a roddir iddynt o dan y Bil â'r rhai a roddir i Weinidogion y DU, nid ydynt wedi ceisio cyfyngu'r pwerau hyn.

Maent yn cydnabod, yn y nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r gwelliannau a awgrymwyd:

“We are aware that there are significant concerns in Parliament about the very broad scope of the Henry VIII powers proposed in the Bill, and would be supportive of amendments which sought to define these more narrowly.”

Cyflwynodd Cymdeithas Ddysgedig Cymru dystiolaeth ysgrifenedig:

“The discretion given to Ministers of the Crown to adjust retained EU law is however very wide. Arguably, it is wider than is necessary. [...] The breadth of the discretion effectively makes it impossible to challenge its exercise other than by internal procedures within the UK Parliament.”

Ym marn y Pwyllgor, dylid cyfyngu'r disgrisiwn a gynigir i Weinidogion Cymru i ddarpariaeth hanfodol (“essential”) yn unig. Mae nodyn isod yn esbonio pam y mae'r Pwyllgor wedi penderfynu hyn, yn hytrach na chyfeirio at ddarpariaeth

angenrheidiol (“necessary”) (fel y cynigiwyd mewn gwelliannau eraill a gyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin), ar ôl i'r Pwyllgor awgrymu gwelliannau ar gyfer yr Amcan hwn.

Er mai diben y Pwyllgor yw rheoli'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru, mae mecanwaith y Bil yn ei gwneud yn anodd cyflawni hynny heb roi cyfyngiadau ar y pwerau sydd ar gael i Weinidogion y DU (a Gweinidogion datganoledig eraill) hefyd. Byddai'n well gan y Pwyllgor gyfyngu'r gwelliant a awgrymwyd ganddo i'r pwerau a ddirprwywyd i Weinidogion Cymru. Gwnaed hynny lle y bo'n bosibl, ond nid yw'n ymarferol bosibl ym mhob achos o gofio sut y mae'r Bil wedi'i gyfansoddi.

Nodyn ar y defnydd o “essential” yn hytrach na “necessary” neu “appropriate” Byddai'r gwelliannau a awgrymir uchod yn lleihau'r disgrisiwn eang a geir ar hyn o bryd ar gyfer defnyddio deddfwriaeth ddirprwyedig ac yn ei gyfyngu i'r agweddau hynny nad oes modd eu hosgoi, drwy gyflwyno pŵer i wneud y cyfryw ddarpariaeth ag sy'n hanfodol (“such provision as is essential”) yn lle'r pŵer i wneud fel sy'n briodol ym marn y Gweinidog (“such provision as the Minister considers appropriate”). Mae'r disgrisiwn yn cael ei gyfyngu mewn dwy ffordd. Yn gyntaf, mae'r gair “essential”, yn amlwg, yn llawer culach na'r gair “appropriate”. Yn sicr, mae'n canolbwyntio ar yr hyn na ellir ei osgoi; yr hyn y mae'n rhaid ei wneud er mwyn sicrhau bod cyfraith sy'n deillio o'r UE yn gweithredu'n effeithiol ar ôl ymadael. Yn ail, byddai'r gwelliant yn arwain at gynnal prawf gwrthrychol o'r hyn sy'n hanfodol, yn hytrach na phrawf o'r hyn sy'n hanfodol ym marn y Gweinidog. Mae elfen oddrychol amlwg i'r olaf, er gwaethaf yr amod ei bod yn ofynnol, yn ôl y llysoedd, i ystyriaethau Gweinidogion fod yn “rhesymol” bob amser.

Byddai'r gwelliant yn cyfyngu disgrisiwn ar gyfer yr holl Weinidogion datganoledig, fel y gwelir yn strwythur yr Atodlen 2 gyfredol.

Mae gwelliannau eraill â'r un diben eisoes wedi'u cyflwyno, o ran pwerau Gweinidogion Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae'r gwelliannau hynny'n ceisio hepgor y gair “appropriate” a defnyddio “necessary” yn ei le. Mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai hyn yn dal i roi gormod o ddisgrisiwn i Weinidogion yng nghyd-destun y pwerau Harri VIII hynod eang, ac yng nghyd-destun cyfansoddiadol pwysig y broses o ymadael â'r UE. Y rheswm am hynny yw am fod sawl ystyr i'r gair “necessary”. Mae'n wir y gellir ei ddehongli i olygu hanfodol (“essential”). Ond mae'r llysoedd wedi ei ddehongli hefyd i olygu cymesur (“proportionate”) (yn benodol, yng nghyd-destun hawliau dynol a chyfraith yr UE). Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng “proportionate” a'r term cyfredol, “appropriate”, a fu'n destun cryn feirniadaeth gan arbenigwyr cyfansoddiadol.

Defnyddiwyd y term “essential” mewn sawl darn o ddeddfwriaeth San Steffan, e.e. Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015, Deddf Pwerau Ymchwilio 2016 a Deddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 (sydd wedi'i diwygio erbyn hyn). Yn y Deddfau a nodwyd, defnyddir y term mewn cyd-destun sy'n cynnwys elfen o ddisgrisiwn – a fyddai'n wir yn achos y Bil hwn hefyd. Mae'n air priodol, felly, ym marn y Senedd os mai'r nod yw rhoi cyfyngiad penodol ar ddisgrisiwn, ond peidio â'i ddileu.

Amcan 4: Atal Gweinidogion y DU rhag diwygio agweddau ar gyfraith sy'n deillio o'r UE sy'n effeithio ar Gymru oni bai eu bod yn ymwneud â maes a gedwir yn ôl

Esboniad

Fel y nodwyd yn achos Amcan 2 uchod, mae'r Pwyllgor Materion Allanol o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol ac effeithlon, o safbwynt cyfansoddiadol, o gywiro cyfraith yr UE yw drwy sicrhau bod Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad yn gyfrifol am wneud cywiriadau i bob maes o gyfraith yr UE a drosglwyddir sydd o fewn eu cymhwysedd deddfwriaethol datganoledig.

Fel y'i drafftwyd, mae'r Bil yn rhoi pwerau unigryw i Weinidogion y DU ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd mewn meysydd datganoledig (er bod gwelliannau i Atodlen 2 a wnaed yn Nhŷ'r Cyffredin yn creu mecanwaith i weinidogion datganoledig gael pwerau cywiro ar gyfer agweddau cyfyngedig ar ddeddfwriaeth uniongyrchol yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol). Mae'r Bil hefyd yn darparu pwerau cydamserol i Weinidogion y DU ddiwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE mewn meysydd datganoledig.

Mae Amcan 2 (uchod) yn ceisio ehangu'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru fel y gall Gweinidogion Cymru ddiwygio deddfwriaeth uniongyrchol yr UE mewn meysydd datganoledig.

Mae'r Amcan 4 hwn yn ceisio dileu'r pwerau cydredol a roddir i Weinidogion y DU i'w galluogi i ddiwygio deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE mewn meysydd datganoledig.

Mae'r amcan hwn yn mynd ymhellach na gwelliannau Llywodraeth Cymru gan ei fod yn ceisio dileu'r posibilrwydd y bydd Gweinidogion y DU yn diwygio darnau o gyfraith yr UE a gedwir mewn meysydd datganoledig.

Fel deddfwrfa aeddfed, ni ddylai'r Cynulliad fod yn ceisio amser yn Senedd y DU i fynd i'r afael â materion y mae eisoes yn gyfrifol amdanynt. Dylai'r Cynulliad fod yn gyfrifol am graffu ar ddeddfwriaeth y mae'n atebol i'r etholwyr am ei darparu.

Mae'r Pwyllgor Materion Allanol o'r farn y dylid galluogi pob deddfwrfa ddatganoledig i chwarae ei rhan lawn yn y broses o ddeddfu ar gyfer ymadael â'r UE.

Ni fyddai'r dull hwn yn atal Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU rhag cydweithio wrth baratoi is-ddeddfwriaeth.

Nid oedd Llywodraeth y DU o'r un safbwynt â ni wrth ymateb i welliannau a gyflwynwyd gan Stephen Kinnock AS yn Nhŷ'r Cyffredin (gwelliannau a oedd yn seiliedig ar welliannau a awgrymwyd gan y Pwyllgor i gyflawni'r amcan hwn)

Heb grwydro oddi wrth egwyddor ein safbwynt, byddem yn ystyried bod gwelliannau i'r Bil a oedd yn gofyn am gydsyniad y Cynulliad i ddefnyddio pwerau cydamserol i ddeddfu mewn meysydd datganoledig yn gam ystyrlon tuag at ein safbwynt.

Amcan 5: Atal Gweinidogion y DU neu Weinidogion Cymru rhag diwygio Deddf Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio pwerau dirprwyedig

Esboniad

O ran egwyddor gyfansoddiadol, dim ond drwy ddefnyddio deddfwriaeth sylfaenol neu, mewn amgylchiadau cyfyngedig, drwy ddefnyddio Gorchymyn Adran 109 (fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006) y dylid diwygio'r sylfeini ar gyfer datganoli yng Nghymru.

Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth o nifer o ffynonellau ynglŷn â'r Papur Gwyn a'r Bil Ymadael sy'n pwysleisio na ddylai fod yn bosibl diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy ddefnyddio pwerau dirprwyedig.

Ar hyn o bryd, byddai'r Bil Ymadael yn rhoi pŵer i Weinidogion y DU ddiwygio'r Ddeddf drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth.

Mae gwelliannau Llywodraeth Cymru yn cyfyngu ar allu Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Ddeddf drwy ddefnyddio is-ddeddfwriaeth yn y rhan fwyaf o amgylchiadau.

Fodd bynnag, mae gwelliannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban yn rhoi'r gallu i Weinidogion y DU ddiwygio'r Ddeddf gyda chydysniad Gweinidogion Cymru neu Weinidogion yr Alban o ran gweithredu cytundeb ymadael.

Fel gofyniad sylfaenol, dylai fod angen cydysniad y Cynulliad i wneud hyn. Fodd bynnag, y drefn fwyaf priodol o safbwynt cyfansoddiadol fyddai dileu'r pŵer hwn yn gyfan gwbl. Mae hynny'n cyd-fynd â'r drefn a geir yn y Bil o ran y Ddeddf Hawliau Dynol.

Amcan 6: Sicrhau y gall y Cynulliad bennu ei drefniadau craffu ei hun

Esboniad

Fel y cydnabyddir gan y pwerau a roddwyd i'r Cynulliad gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mater i'r Cynulliad yn unig, sef y sefydliad sy'n atebol yn ddemocrataidd i Gymru, yw pennu ei weithdrefnau ei hun.

Byddai'r Bil fel y'i drafftiodd yn tanseilio'r egwyddor hon, sy'n hanfodol o safbwynt cyfansoddiadol, drwy geisio pennu, ar ran y Cynulliad, y gweithdrefnau a fyddai'n gymwys wrth graffu ar is-ddeddfwriaeth. Nid yw hynny'n briodol o gwbl.

Yn ei adroddiad ar y Papur Gwyn, dywedodd y Pwyllgor:

"Byddai'n destun pryder difrifol inni pe bai Llywodraeth y DU yn gorfodi gweithdrefn ar y Cynulliad, yn enwedig gan nad yw wedi ymgynghori â'r Cynulliad ynglŷn â hyn."

Nid yw Llywodraeth y DU wedi ymateb i alwadau'r Pwyllgor am iddi ymgysylltu'n adeiladol â'r Cynulliad.

Mae'r Bil Ymadael yn ceisio gosod gweithdrefn ar y Cynulliad heb unrhyw ymgynghoriad a heb gydnabod barn y Pwyllgor, fel y'i mynegwyd yn ei adroddiad ar y Papur Gwyn.

Mae'r weithdrefn a gynigir gan Lywodraeth y DU (yn bennaf i'r Senedd ac, yn ychwanegol at hynny, y deddfwrfeydd datganoledig) ymhell o wireddu disgwyliadau'r Pwyllgor, fel y'u mynegwyd yn ei adroddiad ar y Papur Gwyn.

Awgrymodd yr Athro Bell yn ei dystiolaeth ysgrifenedig:

"The provisions on Scrutiny are inadequate. [...] The Bill does not recognise the magnitude of the task and therefore the need to have differently designed procedures to ensure adequate scrutiny. [...] The Bill assumes current procedures will be used, but that is simply not possible. Very serious attention needs to be given to how scrutiny will operate."

Ysgrifennodd y Sefydliad Materion Cymreig:

*"Corresponding powers are conferred on devolved institutions by clause 10 and schedule 2, meaning that Welsh Government Ministers could also take Henry VIII powers under this Bill should they wish. It would of course be unsatisfactory to see this power replicated in Wales, without action to rebalance the scrutiny mechanisms available to the National Assembly for Wales.
Defects in parliamentary scrutiny ought not to be replicated in Cardiff."*

Mae'r gwelliannau a wnaed yn Nhŷ'r Cyffredin, o dan arweiniad Cadeirydd y Pwyllgor Gweithdrefnau, wedi gwella'r trefniadau craffu ar gyfer y Senedd. Nid ydynt yn berthnasol i'r deddfwrfeydd datganoledig, er bod y Pwyllgor yn deall bod

Llywodraeth y DU yn barod i ystyried diwygio'r Bil i gymhwyso trefniant craffu gwell y Cynulliad ar wyneb y Bil.

Mae'r Pwyllgor wedi cynnig gwelliannau yn Nhŷ'r Cyffredin (a gyflwynwyd gan Stephen Kinnock AS) a fyddai'n caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bennu trefniadau craffu drwy ei Reolau Sefydlog. Gwelodd y Pwyllgor hyn fel rhywbeth a fyddai'n galluogi opsiwn pragmatig ar gyfer sefydlu trefniadau craffu y Cynulliad yn gyflym.

Gwrthodwyd y gwelliannau.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn cydnabod na fyddai ei ddull yn atal y ffyrdd eraill a ddilynir i sefydlu trefniadau craffu.

Disgwylir y bydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad yn adrodd ar ei drefniadau craffu dewisol ddiwedd mis Chwefror. Byddwn yn ysgrifennu eto o ran y rhain, unwaith y gwyddys beth yw safbwynt y Pwyllgor hwnnw.

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon